Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwerthusiad o'r Cod Ymarfer Awtistiaeth

**Cam 2:**

- **Y cynnydd sydd wedi cael ei wneud gan bobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau awtistiaeth**
- **Beth mae pobl awtistig, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn feddwl**



Tachwedd 2025

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Gwerthuso'r Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth**.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth maen nhw'n feddwl ar **dudalen 40**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Pobl a Gwaith**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.peopleandwork.org.uk

**Ebost:** duncan.holtom@peopleandwork.org.uk

**Ffôn:** 029 2048 8536

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 4035272477

# Cynnwys

**Beth ydy'r adroddiad yma** .......... 4

**Beth rydyn ni wedi ei wneud** .......... 9

**Beth rydyn ni wedi ei ddysgu** .......... 11

Asesiad diagnostig .......... 11

Cael gwybodaeth, cyngor a chymorth .......... 15

Gwasanaethau i bobl â mwy nag 1 cyflwr .......... 21

Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant .......... 23

Gwasanaethau cynllunio a gwirio .......... 26

**Sut mae'r Cod wedi newid pethau** .......... 28

**Sut i wella gwasanaethau** .......... 32

**Mwy o wybodaeth** .......... 39

**Geiriau anodd** .......... 40

# Beth ydy'r adroddiad yma




Mae'r **Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth** yn set o reolau mae'n rhaid eu dilyn gan y gyfraith.



Rydych chi'n gallu darllen y fersiwn hawdd ei ddeall o'r Cod yma.



Mae **Cod Ymarfer** yn rhoi rheolau a chyngor am y ffyrdd gorau o weithio. Mae'n dweud sut i ddilyn deddfau a chynlluniau.



Fe fyddwn ni'n galw hyn yn y **Cod** yn fyr.




Mae'r Cod yn set o reolau mae'n rhaid eu dilyn gan y gyfraith. Er enghraifft, mae'r Cod  yn dweud:



- Rhaid i gynghorau a byrddau iechyd ddweud wrthych chi am wasanaethau awtistiaeth yn eich ardal.



- Mae'n rhaid iddyn nhw eich helpu i gael y gefnogaeth rydych chi ei angen. A pheidio â'ch cadw chi'n aros yn rhy hir.



- Rhaid cael gwybodaeth a hyfforddiant am awtistiaeth mae pawb yn gallu ei ddefnyddio.

Mae’r **Cod** yma ar gyfer:



- Pobl awtistig, eu teuluoedd a’u gofalwyr – fel eu bod yn gwybod pa wasanaethau ddylen nhw eu cael.



- Darparwyr gwasanaeth awtistiaeth.

Rydyn ni’n grŵp elusennol o’r enw **Pobl a Gwaith**.



Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ofyn  i ni edrych ar wasanaethau awtistiaeth yng Nghymru.



Fe wnaethon ni edrych ar ba mor dda y mae byrddau iechyd a chynghorau yn dilyn y **Cod Ymarfer** ar gyfer darparu gwasanaethau awtistiaeth.




Fe wnaethon ni edrych ar hyn mewn 2 ran. Yn 2023 fe wnaethon ni ysgrifennu ein hadroddiad cyntaf, o'r enw Cam 1.



Roedd yr adroddiad am beth mae pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau awtistiaeth yn feddwl am y Cod.



Rydych chi'n gallu darllen yr adroddiad hawdd ei ddeall yma.





Dyma ein hail adroddiad, o’r enw Cam 2. Mae’r adroddiad yma am:



- y cynnydd mae pobl sy’n gweithio mewn gwasanaethau awtistiaeth wedi ei wneud



- beth mae pobl awtistig, eu teuluoedd a’u gofalwyr yn feddwl



- beth rydyn ni’n meddwl ddylai ddigwydd i wneud gwasanaethau awtistiaeth yn well.

# Beth rydyn ni wedi ei wneud



Fe wnaethon ni helpu gwasanaethau ym mhob ardal I edrych ar sut roedden nhw'n gwneud.



Fe wnaethon ni siarad â phobl sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr bod y Cod yn cael ei ddilyn. Roedd hyn yn meddwl pobl o wasanaethau iechyd a chymdeithasol.



Fe wnaethon ni gasglu gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd:

- fe wnaethon ni siarad â gwahanol dimau
- gwneud arolygon gyda staff sy'n gyfrifol am gynghorau a byrddau iechyd
- cael gwybod beth roedd oedolion, rhieni a gofalwyr awtistig yn feddwl
- edrych ar wefannau, cynlluniau lleol, ac ymchwil ac adolygiadau eraill.



Dydyn ni ddim yn gallu siarad â phob person awtistig yng Nghymru na'u teuluoedd, felly efallai y bydd rhai pobl yn cael profiadau gwahanol.



Roedd y cwestiynau oedd yn cael eu gofyn i oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr yn wahanol i'r cwestiynau oedd yn cael eu gofyn i staff.

# Beth rydyn ni wedi ei ddysgu

## Asesiad diagnostig




Mae **asesiad diagnostig** yn set o gwestiynau a phrofion sydd yn cael eu gwneud i weld os ydy person yn awtistig.



**Diagnosis** ydy pan fydd gweithwyr iechyd proffesiynol yn penderfynu bod gan berson gyflwr.

Mae 2 wasanaeth ym mhob ardal sy'n cefnogi plant ac oedolion:



- **Gwasanaeth Niwro-ddatblygiadol Plant**



- **Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig i Oedolion**


## Gwasanaeth Niwro-ddatblygiadol Plant




Mae'r **Gwasanaeth Niwro-ddatblygiadol Plant** yn dîm o weithwyr proffesiynol.



Maen nhw'n cefnogi plant a phobl ifanc sydd efallai gyda chyflwr **niwro-ddatblygiadol**. Maen nhw hefyd yn cefnogi eu teuluoedd.



Mae **niwro-ddatblygiadol** yn meddwl y ffordd mae'ch ymennydd yn datblygu ac yn gweithio.

Mae **cyflyrau niwroddatblygiadol** yn bethau fel Awtistiaeth ac ADHD.

## Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig



Mae 7 **Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yng Nghymru**. Maen nhw'n darparu:

- asesiad diagnostig **awtistiaeth oedolion**
- cymorth a chyngor i oedolion awtistig, rhieni a gofalwyr, a gweithwyr proffesiynol.



Roedd y 2 wasanaeth yn gwneud y rhan fwyaf o'r pethau yn y Cod.



Ond mae llawer o ardaloedd yn dal i gael trafferth gwneud **asesiadau diagnostig** i blant o fewn y terfyn amser.



Mae gan rai ardaloedd lai o staff. Mae hyn yn gallu gwneud gwasanaethau yn anodd eu rhedeg.



Dydy gwasanaethau plant ddim bob amser yn gallu rhoi cymorth cyn neu ar ôl **diagnosis**.

**Gwasanaethau eraill**



Dydy Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion a Gwasanaethau Anabledd Dysgu ddim yn dilyn y Cod yn llawn.



Mae pobl mewn rhai lleoliadau, fel carchardai, yn dal i'w chael hi'n anodd cael **asesiadau diagnostig**.

**Beth ddywedodd pobl**



Roedd llawer o bobl yn siarad am gefnogaeth cyn neu ar ôl **diagnosis**. Yn enwedig i blant.



Mae rhieni a gofalwyr yn aml yn disgwyl bod cael **diagnosis** yn meddwl eu bod nhw'n gallu cael mwy o help.



Ond ar ôl y **diagnosis**, maen nhw'n aml yn flin iawn. Oherwydd nad ydyn nhw'n cael yr help maen nhw eisiau.

## Cael gwybodaeth, cyngor a chymorth



Mae cael gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth wedi gwella.



Mae gwefannau a thimau a grwpiau awtistiaeth lleol wedi helpu i wneud gwybodaeth yn well ac yn haws i'w ddarganfod.



Maen nhw'n helpu i rannu gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth yn eu hardal.



Mae rhai pobl yn meddwl mai **Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig** ydy'r unig wasanaeth awtistiaeth yn eu hardal.

Ond mae yna lawer o wasanaethau eraill sydd:



- yn archwilio oedolion am awtistiaeth



- yn cefnogi pobl awtistig, eu teuluoedd, a gofalwyr.



Dywedodd rhai pobl ei bod yn gallu bod anodd deall sut mae’r holl wahanol wasanaethau yn gweithio. A lle i fynd am help.

**Gwasanaethau asesu**



Mae’r rhan fwyaf o wefannau byrddau iechyd lleol yn esbonio’n glir sut i ddod o hyd i **Wasanaethau Awtistiaeth Integredig**.



Mae rhieni a gofalwyr yn dweud ei bod hi’n anodd cael mynediad **at Wasanaethau Niwro-ddatblygiadol Plant**.



Dydy gwybodaeth am **Wasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion ac Anabledd Dysgu** ddim yn cael ei rhannu llawer.



Mae pobl yn gallu cael gwybodaeth am asesiadau gofal cymdeithasol drwy’r gwasanaeth **Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth**.



Mae’r gwasanaeth **Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth** yn rhan o’ch cyngor lleol.



Mae’n darparu gwybodaeth a chyngor. Neu yn dweud wrthych chi lle i fynd i gael y wybodaeth rydych chi ei hangen.




Mae’r gyfraith yn dweud bod rhaid i bob cyngor lleol gael y gwasanaeth yma.

## Hawliau ac ymwybyddiaeth




Dydy pob person awtistig ddim yn gwybod am eu hawl i **asesiad anghenion**.



**Asesiad anghenion** ydy pan fydd staff iechyd a gofal cymdeithasol yn darganfod beth ydy eich anghenion a sut maen nhw'n gallu eich cefnogi.



Dydy pob gofalwr ddim yn gwybod am eu hawl i **asesiad gofalwr**.



**Asesiad gofalwr** ydy pan fydd staff iechyd a gofal cymdeithasol yn edrych ar beth ydy anghenion eich gofalwr a sut maen nhw'n gallu eu cefnogi.



Does dim llawer o wybodaeth am yr hawliau yma ar wefannau.

**Beth ddywedodd pobl**



Dydy llawer o bobl ddim yn credu  y bydd asesiad yn eu helpu.

Efallai oherwydd:




- dydy pobl ddim bob amser yn deall beth mae asesiad yn feddwl




- mae llawer o bobl yn meddwl  bod asesiad yn ddefnyddiol dim ond os ydy e’n dangos eu bod yn gallu cael cefnogaeth.

## Gwasanaethau i bobl â mwy nag 1 cyflwr



Mae cynghorau a byrddau iechyd wedi dechrau rhoi cymorth wedi ei seilio ar anghenion pobl.



Ond maen nhw angen **diagnosis** i gael cefnogaeth.




Mae plant a phobl ifanc awtistig yn dal i'w chael hi'n anodd cael cymorth gan wasanaethau iechyd meddwl.




Mae'r **Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig** yn gallu cefnogi oedolion awtistig sydd â mwy nag 1 cyflwr, os nad ydyn nhw'n cael help yn barod gan:

- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion
- Gwasanaethau Anabledd Dysgu



Os ydy gwasanaethau fel y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion neu Wasanaethau Anabledd Dysgu yn gweithio gyda'i gilydd, mae hynny yn gallu helpu pobl â mwy nag 1 cyflwr.

**Beth ddywedodd pobl**



Dywedodd y rhan fwyaf o bobl ei bod yn anodd cael cymorth gan Wasanaethau Iechyd Meddwl neu Anabledd Dysgu.



Dywedodd llawer o rieni mai dim ond pan fydd y broblem yn gwaethygu y mae Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gael.



Mae Gwasanaethau Anabledd Dysgu yn bennaf yn cefnogi pobl sy'n cael llawer o drafferth gyda deall a defnyddio gwybodaeth. Roedd rhai pobl yn teimlo bod hyn yn gadael allan eraill sydd hefyd angen cefnogaeth.

# Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant



Dydy pob ardal ddim yn dilyn y Cod yn yr un ffordd.



Dydy llawer o staff ddim yn gwybod digon am wasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.



Mae cynghorau a byrddau iechyd wedi gwneud yn dda gyda'r pethau yma:

- hyfforddi staff am awtistiaeth. Mewn rhai ardaloedd **mae'n rhaid i staff** wneud hyfforddiant awtistiaeth
- rhoi hyfforddiant ychwanegol i staff sy'n gwneud asesiadau
- gwneud yn siŵr bod gan staff mewn gwasanaethau awtistiaeth y sgiliau a'r hyfforddiant cywir.

## Hyfforddiant



Mae'r **Tîm Niwrowahanol Cenedlaethol** wedi helpu i wneud hyfforddiant defnyddiol.



Mae rhai ardaloedd hefyd wedi gwneud eu hyfforddiant awtistiaeth eu hunain.




Mae'r Cod  wedi gwneud i reolwyr gymryd hyfforddiant ymwybyddiaeth awtistiaeth yn fwy difrifol.

## Anghenion hyfforddi



Fe ddylai staff iechyd a gofal cymdeithasol gael hyfforddiant sy'n cyd-fynd â'u swydd.



Mae llawer o staff wedi gwneud hyfforddiant sylfaenol. Mae angen hyfforddiant uwch.

**Cynnwys pobl awtistig**



Fe ddylai pobl awtistig, rhieni a gofalwyr fod yn rhan o wneud a darparu hyfforddiant awtistiaeth.

**Beth ddywedodd pobl**



Dywedodd llawer o bobl nad ydy staff iechyd, fel meddygon teulu a nyrsys, yn gwybod sut mae awtistiaeth yn effeithio ar eu bywydau.



Dywedodd ychydig o bobl yr un peth am staff gofal cymdeithasol.



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn teimlo na fyddai staff iechyd a gofal cymdeithasol yn gwneud newidiadau i ateb eu hanghenion.



Fel rhoi amser ychwanegol ar gyfer apwyntiadau. Neu roi gwybodaeth yn Hawdd ei Ddeall.

# Gwasanaethau cynllunio a gwirio



Mae grwpiau awtistiaeth ym mhob ardal o Gymru.



Mae gan rai ardaloedd **hyrwyddwr awtistiaeth**.



Mae **hyrwyddwr awtistiaeth** yn helpu pobl i ddeall y problemau mae pobl awtistig a’u teuluoedd yn eu hwynebu.



Mae grwpiau awtistiaeth ar draws Cymru yn gweithio mewn gwahanol ffyrdd.



Mae gan rai ardaloedd grwpiau mwy gyda mwy o aelodau.



Mae hyn wedi helpu i edrych ar fwy o fathau o wasanaethau awtistiaeth.



Mae'r rheolau yn y Cod wedi helpu grwpiau awtistiaeth i gael mwy o gefnogaeth gan uwch arweinwyr. Ond mae'n rhy gynnar i weld effaith y newidiadau yma.

# Sut mae'r Cod wedi newid pethau





Mae mwy o ardaloedd yn dilyn y Cod ers 2023.



Mae'r Cod  yn helpu:

- pobl I gael gwybodaeth a chyngor
- codi ymwybyddiaeth a hyfforddi staff am awtistiaeth
- gyda gwasanaethau cynllunio.



Mae grwpiau awtistiaeth lleol a rhanbarthau yn gweithio i wella gwasanaethau. Ond does fawr o newid wedi bod mewn cael asesiadau.




Mae'r Cod yn siarad am iechyd a gofal cymdeithasol yn unig. Dydy e ddim yn cynnwys ysgolion, swyddi, na thai.

# Beth sy'n ei gwneud hi'n hawdd neu'n anodd dilyn y Cod

**Rhai pethau sydd wedi ei gwneud hi'n hawdd:**





- Mae'r Cod yn bwysig a rhaid ei ddilyn gan y gyfraith. Mae'n rhoi mwy o bŵer i bobl sydd eisiau newid pethau.




- Rheolau a chyfreithiau eraill sy'n helpu gyda'r Cod, fel: fframwaith NEST/NYTH, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Deddf Cydraddoldeb.



- Arian gan Lywodraeth Cymru i wneud gwasanaethau awtistiaeth cenedlaethol.




- Help gan y **Tîm Niwrowahanol Cenedlaethol**. Roedd hyn yn cynnwys cynllun hyfforddi, cyrsiau a gwybodaeth.

**Rhai pethau sydd wedi ei gwneud hi'n anodd:**



- Mae'r Cod yn hir, a dydy e ddim yn hawdd i'w ddefnyddio. Mae hyn yn gallu ei gwneud hi'n anodd i bobl wybod os ydyn nhw'n dilyn y Cod a beth i'w wneud yn gyntaf.



- Dydy gwasanaethau iechyd a chymdeithasol ddim bob amser yn gweithio gyda'i gilydd yn dda.



- Mae gan wasanaethau iechyd a chymdeithasol lawer o bobl sydd angen eu help a dim digon o arian. Maen nhw'n cael problemau cadw a llogi staff.



- Mae yna feysydd lle nad oes unrhyw berson neu grŵp wedi cymryd cyfrifoldeb am edrych pa mor dda maen nhw'n dilyn y Cod.



- Mae’n gallu bod yn anodd dilyn y rheolau oherwydd bod ardaloedd yn rhedeg gwasanaethau mewn gwahanol ffyrdd.



- Mae rhywfaint o gyllid yn y tymor byr neu’n cael ei oedi.

# Sut i wella gwasanaethau

## Beth rydyn ni'n meddwl ddylai cynghorau a byrddau iechyd ei wneud

**Gwella cynllunio ac edrych ar wasanaethau**



Gwneud grwpiau lleol a hyrwyddwyr awtistiaeth yn gryfach.




Gwrando ar brofiadau pobl ac edrych ar  wasanaethau.



Cynnwys pobl awtistig a gofalwyr wrth gynllunio.




Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau yn gwneud newidiadau i bobl awtistig. Fel amseroedd apwyntiad hirach, neu ddarparu gwybodaeth hawdd ei ddeall.



Edrych ar bethau fel sut mae **asesiadau diagnostig** yn gweithio mewn gwasanaethau anabledd dysgu ac iechyd meddwl.



Defnyddio gwybodaeth ac adborth i wneud gwasanaethau'n well.



Gwneud yn siŵr bod cyllid yn cefnogi syniadau newydd a gwasanaethau arbenigol.



Cynnwys awtistiaeth mewn polisïau a meysydd gwaith eraill.

**Hyfforddiant**



Cynnwys awtistiaeth mewn cynlluniau hyfforddi staff.




Gwneud hyfforddiant **gyda** phobl awtistig a gofalwyr.



Edrych i weld os ydy hyfforddiant yn gwella sgiliau a hyder staff.

## Cael gwasanaethau




Gwneud hi’n glir sut i gael gwasanaethau.



Rhannu’r wybodaeth yma gyda’r staff a’r bobl.



Gwneud yn siŵr bod pobl mewn carchardai yn gallu cael gofal cymdeithasol.

## Gwasanaethau diagnostig




Darparu cymorth i bobl sy'n aros am **ddiagnosis**.




Gwneud yn siŵr bod pobl mewn carchardai yn gallu cael **asesiadau diagnostig**.



Lleihau amseroedd aros ar gyfer **asesiadau diagnostig**.



Defnyddio gwybodaeth o wahanol adolygiadau i wneud gwasanaethau yn well.


## Beth rydyn ni'n meddwl y dylai Llywodraeth Cymru ei wneud



Dweud wrth fwy o bobl am y Cod a beth mae'n ei feddwl iddyn nhw.



Gwneud yn siŵr bod yr holl wasanaethau a thimau yn gweithio'n well gyda'i gilydd.



Defnyddio cyllid a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru a'i thimau i wneud newidiadau cadarnhaol. Er enghraifft:




- Rhannu gwybodaeth a syniadau da.



- Gwneud canllawiau a rheolau ar gyfer staff sy'n gweithio gyda phobl awtistig.



- Gwneud yn siŵr bod cyllid yn cefnogi cynlluniau lleol.



- Dweud beth ddylai pob tîm a hyrwyddwr awtistiaeth ei wneud. Dangos sut mae grwpiau a'r bobl yma yn gallu gweithio gyda'i gilydd i ddilyn y Cod.




- Edrych ar sut mae'n bosibl cynnwys polisïau am bethau fel awtistiaeth mewn meysydd gwaith eraill.



- Gweithio gyda'r tîm **Niwro-ddatblygiadol** a grwpiau eraill sy'n gweithio ar awtistiaeth.



- Gwneud y Cod newydd yn fwy syml, yn fwy clir ac yn hawdd i'w ddilyn. Mae'r Cod newydd yn bwriadu cynnwys cyflyrau eraill sy'n digwydd yn aml gydag awtistiaeth, fel ADHD.

# Mwy o wybodaeth



Y bobl a ysgrifennodd yr adroddiad yma ydy:

Dr Duncan Holtom gyda Dr Sarah Lloyd-Jones.

**Os ydych chi eisiau gwybod mwy, rydych chi'n gallu cysylltu gyda:**



**Post:**

Dr Christopher Ben Eaton
Yr Is-adran Ymchwil a Gwybodaeth Gymdeithasol
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ



**Ebost:**
Ymchwil.IechydAGwasanaethauCymdeithasol@llyw.cymru




Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd.

# Geiriau anodd

## Asesiad diagnostig

Mae asesiad diagnostig yn set o gwestiynau a phrofion sydd yn cael eu gwneud i weld os ydy person yn awtistig.

## Diagnosis

Diagnosis ydy pan fydd gweithwyr iechyd proffesiynol yn penderfynu bod gan berson gyflwr.

## Niwro-ddatblygiadol

Mae niwro-ddatblygiadol yn meddwl y ffordd mae eich ymennydd yn datblygu ac yn gweithio. Mae anhwylderau niwroddatblygiadol yn bethau fel Awtistiaeth ac ADHD.

OGL Crown copyright 2026 Digital

ISBN 978-1-80633-746-0

Photosymbols®
Publisher Licence 403527247